Ffederasiwn C.Ff.I Sir Gâr

Swyddfa C.Ff.I
Tŷ Amaeth
Lle Cambrian
Caerfyrddin
Sir Gâr
SA31 1QG

Disgrifiad Swydd Swyddog Ieuenctid Gwledig

Y MUDIAD

Mudiad Ieuenctid gwirfoddol yw Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin ac mae'n darparu gwasanaeth i bobl ifanc rhwng 10-28 oed yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru. Mae gan y Mudiad 20 Clwb ac yn unol â'r cyfansoddiad, disgyn y prif weithgareddau o fewn yr amcanion canlynol:-

1. Gweithredu yn y gymuned – codi arian, prosiectau Cymunedol / amgylcheddol a gwaith gwirfoddol o fewn cymunedau.
2. Addysg a phartneriaeth gyda Ysgolion (datblygu pecyn addysgiadol mewn perthynas a 'O'r Gât i'r Plât')
3. Cydlynu gweithgarwch amaethyddol a chymdeithasol.
4. Darparu a hyrwyddo darpariaeth addysgiadol a chymdeithasol i ddatblygu unigolion i gyfrannu'n llawn yn eu cymunedau gwledig.

TEITL Y SWYDD

Swyddog Ieuenctid Gwledig Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Swyddog Ieuenctid Gwledig ar gyfer y Mudiad i fod yn gydlynydd rhwng Swyddfa'r Sir a chlybiau'r Sir. Prif pwrpas y rôl yw i sefydlu a datblygu perthynas rhwng clybiau, ysgolion a phartneriaid ar draws y Sir.

RÔL Y SWYDDOG

- Bod yn gyfrifol am weithredu'r prosiect Swyddog Ieuenctid Gwledig y mudiad
- Creu cysylltiadau rhwng y swyddfa a chlybiau y sir a mynychu o leiaf 1 noson ym mhob clwb yn ystod y flwyddyn
- Trefnu digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r mudiad yn ysgolion a cholegau lleol
- Cydlynu diwrnod 'O'r Gât i'r Plât' y mudiad bydd yn cael ei lawnsio yn Haf 2024
- Creu pecyn addysgiadol i gyd-fynd a digwyddiad 'O'r Gât i'r Plât' i'r ysgolion i'w ddefnyddio i gyflwyno a chefnogi y cwricwlwm newydd
- Gweithio gyda chlybiau'r sir i ymgysylltu â'r gymuned leol i hyrwyddo gwaith da y mudiad a chynyddu nifer yr aelodau ar draws y Sir
- Cyd-weithio gyda chlybiau sy'n gweithredu'n bennaf yn Saesneg i annog defnydd o'r Gymraeg o fewn eu clybiau
- Parhau a datblygu ymhellach y bartneriaeth rhwng y mudiad ac elusennau iechyd meddwl gwledig
- Cefnogi gweithgarwch Fforwm Amaeth y mudiad a chynyddu nifer yr aelodau sy'n mynychu.
- Cynorthwyo â chystadlaethau a digwyddiadau amrywiol yng nghalendr y Mudiad.

- Cydweithio gyda staff a thîm o swyddogion y Mudiad.
- Cyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo delwedd gyhoeddus a nod ac amcanion y Mudiad.
- Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a phersonol fel unigolyn ac mewn tîm.

CYMWYSTERAU A SGILIAU HANFODOL

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y sgiliau canlynol:

- Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu dwyieithog ar lafar, dros y ffôn ac yn ysgrifenedig
- Sgiliau cyfrifiadurol safonol (yn cynnwys pecynnau Microsoft word, excel, powerpoint, Canva, e-byst, y we)
- Sgiliau rhyngbersonol da gyda'r hyder i ymdrin a phartneriaid yn gwrtais ac effeithlon.
- Y gallu i weithio a threfnu gwaith yn annibynnol ac i weithio dan bwysau.
- Disgwylir i ddeiliad y swydd i weithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ôl y galw.
- Trwydded yrru lân a'r gallu i fynychu digwyddiadau'r Mudiad yn hanfodol.

CYMWYSTERAU A SGILIAU DYMUNOL

- Bydd gwybodaeth a diddordeb yn y Mudiad â'r cymunedau gwledig yn fanteisiol.
- Byddai profiad trefnu a gweinyddol yn fanteisiol ond nid yn hanfodol.
- Profiad o weithio gyda phlant a/neu phobol ifanc yn fanteisiol.

AMODAU GWASANAETH

CYFLOGWR: Bydd y Swyddog Ieuenctid Gwledig yn atebol i'r Trefnydd Sir. Mae holl staff y Mudiad yn atebol i Bwyllgor Rheoli C.Ff.I Sir Gâr

LLEOLIAD Y SWYDD: Swyddfa C.Ff.I Sir Gâr, Tŷ Amaeth, 32 Lle Cambrian, Caerfyrddin

CYFLOG: Tua £25,000 y flwyddyn - Bydd cynllun pensiwn, costau teithio a gwyliau yn rhan o'r swydd hefyd.

TEITHIO: Telir costau teithio o 45 ceiniog y filltir am deithiau perthnasol yn ymwneud â'r gwaith. Rhaid cael yswiriant busnes

ORIAU GWAITH: Bydd yr oriau gwaith yn 37 ½ awr yr wythnos. Pan fydd gwaith tu allan i'r oriau arferol, rhoddir yr oriau hyn yn ôl yn llawn drwy system 'time off in lieu' (TOIL).

GWYLIAU: Bydd 20 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal a gwyliau statudol.

AELODAU: Os ydych o fewn oedran cystadlu, ni fyddwch yn gallu cystadlu yn unigol. Mi fedrwch gystadlu mewn tîm neu grŵp – h.y.. Mewn côr neu mewn tîm chwaraeon

CYTUNDEB SWYDD: Cynigir cytundeb cyfnod penodol (Llawn amser) tan 31 o Rhagfyr 2024, gyda'r posibilrwydd o estyniad yn ddibynnol ar gyllid. Os am ystyried secondiad, cysylltwch gyda'r swyddfa. Rhoddir cyfnod prawf cychwynnol o chwe mis gyda goruchwyliaeth gyson.

GWIRIAD TROSEDDOL: Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael archwiliad manwl gan y Biwro Cofnodion Troseddol cyn cychwyn ar y swydd.

CEISIADAU: Danfonwch eich llythyr cais a CV at: Mrs Carys Thomas, Swyddfa C.Ff.I Sir Gâr, Tŷ Amaeth, Lle Cambrian, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1QG neu drwy e-bost i carys@carmsyfc.org.uk

AMSER A DYDDIAD CAU: Dydd Sul, 17fed o Rhagfyr am 23:59yh. Cynhelir cyfweliadau wythnos y 8fed o Ionawr 2024 - bydd y dyddiad a'r amser cyn cael ei gadarnhau cyn y Nadolig.

Mae'r swydd yma wedi chefnogi gan Cronfa Ffyniant y Deyrnas Unedig